

# Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: [huwjones792@btinternet.com](mailto:huwjones792@btinternet.com)

3ydd Hydref 2021

Annwyl Gyfaill,

**CYNHELIR CYFARFOD O CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 13eg o Hydref 2021 am 8.00pm** yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf, bydd rhaid dilyn canllawiau clir y Neuadd yn ystod y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb.

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,  
Huw T Jones  
**CLERC**

## **AGENDA**

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Byddem yn gwerthfawrogi cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Fedi, gweler gopi yn atodol. Hefyd rhan caeedig o'r cyfarfod (l'w ddsbarthu arwahan)
4. **Materion yn codi.**
  - a) Materion Priffyrdd a chefnffyrdd.
  - b) Giat ar Bont Dolybont
  - c) Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid – bydd angen cadarnhau yr argymhellion o'r nodiadau (gweler adroddiad – l'w ddsbarthu arwahan)
  - d) Sedd wag – Ward Mawddwy – nodi enw arall i law, sef Ynyr Pugh. Mae dau enw felly, sef Eirian Wyn ac Ynyr. Bydd rhaid pleidleisio l ddewis un aelod.
  - e) Coeden mynwent Mallwyd – nodi gohebiaeth Parch Miriam Beecroft.
  - f) Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail-gartrefi a llety hunanarlwyo
  - g) Trefniadau Sul y Cofio eleni – nodi gohebiaeth Parch Miriam Beecroft. Hefyd llythrennau y gogolofn.
  - h) Yr Hen Fynwent – ethol cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned ar y pwyllgor.

## 5. Materion Cynllunio

**NP5/74/28A** – Trosi cyn feudy yn annedd – Pant, Llanymawddwy. (wedi ei ddsbarthu l'r Cynghorwyr 2/10/21)

Hefyd, y ddau gais a ganlyn (danfonwyd e-byst l'r Cynghorwyr 2/10/21)

**NP5/74/410A** - Cyflwyno manylion yn weddill yn dilyn Caniatâd Cynllunio NP5/74/410 dyddiedig 20/07/2007 a NP5/74/PIAW410 dyddiedig 08/12/2010

- Tir ger Llwyn, Dinas Mawddwy. SY20 9JD

**NP5/74/L199E** - Dyluniad diwygiedig i'r annedd a ganiatawyd o dan gyfeirnod NP5/74/L199C dyddiedig 15/12/2015 - Yr Hen Efail, Dinas Mawddwy. SY20 9LL

## 6. Materion Cyllid

Anfoneb Uned Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd £210.

Adolygu y gwariant l'w gymhau a'r gyllideb.

## 7. Gohebiaeth

- E-bost Lisa ac Ian Allsop, sef cais am gofnodion yn yr iaith saesneg (danfonwyd l'r Cynghorwyr 19eg Medi)
- Llythyr Cyngor Gwynedd yn gofyn a oes angen llenwi y biniau halen. Llythyr l'w ddsbarthu arwahan l'r Cynghorwyr (byddwn ddiolchgar pe baech yn edrych sefyllfa y biniau o fewn eich ardaloedd)
- Llythyr Parc Cenedlaethol Eryri yn gwahodd diddordeb mewn dod yn aelod o'r Awdurdod.
- Ymgynghoriad ar gydnabyddiaeth ariannol l Gynghorwyr Cymuned. ( wedi ei ddsbarthu arwahan)
- Gohebiaeth Lindsey Elis - *Ein ardal Ni- Dolgellau 2035/ Our Area- Dolgellau 2035*
- Gohebiaeth Andrea Smith – arolwg ecolegol Mynwent Eglwys Mallwyd (wedi ei ddsbarthu)

## 8. Unrhyw fater arall

Penderfynnu ar drefniadau gosod coeden Nadolig o flaen y Neuadd yn Dinas eleni.